

Amser Maith Maith yn Ôl

Y DYNIAETHAU

- Cymharu bywyd bob dydd yn Y Rhyfel Byd Cyntaf â bywyd bob dydd heddiw, e.e. teithio, cartref, dillad, hamdden – ffordd o fyw.
- Tai yng nghyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, e.e. tai Rhyd-y-car – tai teras, tywyll, ystafelloedd bach, rhannu ystafell wely a gwely, cegin fechan yn y cefn, ystafell fyw, tân, kannwyll.
- Cymharu pethau tebyg a gwahanol rhwng cartref/tai yn Y Rhyfel Byd Cyntaf a heddiw, e.e. papur yn ddrud, dim llawer o deganau, dim trydan.
- Trafod pam ‘Gadael Cartref’ – y rhyfel, ymuno â’r fyddin, milwyr.
- Bwyd/siopa ddoe a heddiw, e.e. tyfu ychydig o lysiau yng nghefn y tŷ, cadw ieir.



Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- Drama – chwarae rôl – Gwen a Tomi yn dilyn Iori, William a Huw i’r Neuadd ac yn edrych ar yr hyn oedd yn digwydd; Gwen a Tomi yn creu’r guddfan yn goedwig; Tad-cu Cads yn dychryn Gwen a Tomi
- Cerddoriaeth – creu cerddoriaeth i gyd-fynd â’r ddrama, e.e. Tad-cu Cads yn dychryn Gwen a Tomi yn y goedwig; creu cerddoriaeth sy’n cyfleu hapusrwydd a thristwch wrth ffarwelio.
- Celf – braslunio gwisg milwr yn gadael cartref, e.e. Wiliam yn ei wisg milwr.

Cyfes 2
Rhaglen
7

Y Rhyfel Byd Cyntaf Gadael Cartref

GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Ffynonellau ynni/golau, e.e. kannwyll, tân.
- Dysgu am ffynonellau cynaliadwy.
- Sut mae dillad yn sychu ar y lein? Beth mae peiriant sychu dillad yn ei wneud heddiw? Pa un sydd orau i’r amgylchedd? Pam?
- Beth sy’n byw yn y goedwig?
- Beth yw cuddliw a pham mae’n bwysig?
- Dylunio a chreu cysgodfan syml.



LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

- Creu ffeil o ffeithiau syml: Gwen, Tomi.
- Ysgrifennu dyddiadur diwrnod Tomi neu Gwen, e.e. Codais yn gynnar... Cefais... Gwelais... Rhedais... Teimlais...
- Dysgu pennill/cerdd syml am y rhyfel.
- Rhestr o ansoddeiriau ‘trist’ ac ‘hapus’.
- Ysgrifennu cerdyn post, e.e. cerdyn post Gwen at ei thad, Huw.
- Cerdd acrostig – ‘Gadael’ neu ‘Cartref’.

MATHEMATEG A RHIFEDD

- Mesur – siapau gwahanol – mesur hyd/ lled gwrthrychau gwahanol; mesur perimedr; arwynebedd, e.e. cuddfan petryal.
- Mesur/pwysu eich hunan, e.e. taldra, eich pwysau, maint/arwynebedd troed, dwylo.

IECHYD A LLES

- Sut mae chwarae allan yn yr awyr agored yn helpu ein corff a’n meddwl?
- Pam mae ffrindiau a theulu’n bwysig?
- Trafod teimpladau – hapusrwydd, tristwch.



Rhestr ddwyieithog o gwestiynau allweddol, geirfa, termau allweddol.

Allwch chi ddod o hyd i...?

Can you find...?

Beth sy'n digwydd?

What's happening?

Beth allwch chi ei ddweud am...?

What can you say about...?

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am...?

What did you find out about...?

Beth arall hoffech chi ei wybod am...?

What else would you like to find out about ...?

Y Rhyfel Byd Cyntaf *The First World War*

milwr *soldier*

byddin *army*

gadael cartref *leaving home*

losin *sweets*

oriawr boced *pocket watch*

